

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam Adroddiad Blynyddol

2018-19







Spring Fever  
Red

Spring Fever  
Red

Spring Fever  
White



## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam - ein blwyddyn gyntaf, 2018/19

Mae yna ychydig dros flwyddyn wedi mynd heibio ers i ni rannu ein cynllun llesiant pum mlynedd, felly mae'n teimlo ei bod yn amser priodol i fyfyrto ar bet yr ydym wedi ei gyflawni hyd yma, a'r heriau sydd yn ein wynebu o hyd.

**Crëwyd ein cynllun fel trywydd ar gyfer gwella iechyd a llesiant pawb a chyfleoedd ar draws Wrecsam. Mae'n ymwneud â symud gyda'n gilydd tuag at 'Y Wrecsam a Garem', lle sydd a diwylliant Cymreig ffyniannus, cymunedau cydlynus a chydnerth, a chyfleoedd gwych i bawb. Lle gwych i fyw, gweithio, chwarae, bod yn hapus a bod yn falch ohono.**

Fe'i ysgrifennwyd gyda'n cymunedau yn rhan ganolog ohono, ac ymrwymiad i wneud pethau ychydig yn wahanol. Bu i ni arenwi themâu yr oedd pobl Wrecsam yn teimlo oedd y bwysig, a bu i ni benderfynu canolbwyntio ar gwpl o'r rhain ar y tro, yn hytrach na cheisio gwneud popeth ar yr un pryd.

Rydym wedi ysgrifennu'r adroddiad yma er mwyn amlygu sut mae'r pum ffordd o weithio - cyfranogiad, cydweithio, hirdymor, integreiddio ac atal, yn amlwg wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud.





## Bwrw iddi

Rydym wedi sefydlu tri bwrdd rhaglenni newydd, sydd yn ymwneud â -

- Phlant a Phobl Ifanc yn cael cychwyn iach i'w bywydau
- Pawb yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu drwy gydol eu bywydau
- Grŵp Strategol Ardal y Dwyrain (EAST) i fwrw ymlaen a rhoi Cymru Iachach ar waith ar draws Gogledd-ddwyrain Cymru.

Mae'r Byrddau yma wedi casglu pobl at ei gilydd sydd â sgiliau a brwdfrydedd i gyfranogi. Ac yn ystod pum mlynedd y cynllun llesiant rydym hefyd yn rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o gyflawni blaenoriaethau eraill yr oedd pobl yn dweud oedd yn bwysig iddynt, fel y gallwn alinio beth ydym yn ei wneud fel PSB â'r amcanion llesiant cenedlaethol.

Mae'r arweinwyr sydd yn eistedd ar ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am ddod â phethau at ei gilydd ac am fwrw iddi gyda'r materion sylweddol sydd yn ein hwynebu - tacro'r argyfwng amgylchedd, lleihau tlodi, cefnogi ein laith Gymraeg a chreu cydlyniant cymunedol.

Nid busnes fel arfer yw hyn. Mae gennym daith hir o'n blaenau, ac os ydym am fod yn llwyddiannus, mae angen i ni deithio gyda'n gilydd. Mae gweithio mewn partneriaeth yn cymryd amser, ymrwymiad, ac yna mwy o amser eto. Erbyn hyn mae gennym seiliau cadarn, ble gallwn wneud cynnydd cyflymach yn y meysydd ble gallwn wneud pethau'n well. Ac erbyn hyn mae gennym well syniad o beth yw'r heriau sydd o'n blaenau er mwyn gwella llesiant pawb.









## Beth ydym wedi ei wneud hyd yma?

Rydym wedi dysgu rhai gwersi o flwyddyn gyntaf y cynllun a byddwn yn trafod hynny yn y PSB gyda'n partneriaid a'n cymunedau. Er ein bod wedi gwneud dechrau da o ran tanio'r drafodaeth ynghylch ein cynllun llesiant, mae yna heriau wedi od eleni hefyd.

- Rydym wedi sylweddoli pa mor anodd yw ceisio caffael gwasanaethau a defnyddio gwahanol brosesau busnes a systemau ar draws gwahanol sefydliadau - mae gan bawb eu blaenoriaethau a swyddi i'w cyflawni o ddydd i ddydd. Os yw'n galed ar sefydliadau PSB, mae'n rhaid bod pethau'n amhosibl yn aml i'n cymunedau. Mae angen i ni wneud i hyn weithio'n well yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Ar brydiau mae gweithio o fewn ein sefydliadau er mwyn rheoli terfynau amser a gweithio'n adweithiol i'r hyn sydd yn digwydd ar y pryd yn ei gwneud yn anodd canolbwyntio gymaint ag y dylem ar yr hirdymor.
- Mae meithrin ymddiriedaeth ac ymrwymiad i bartneriaeth ac alinio cyllidebau yn gymhleth. Mae staff newydd a syniadau newydd yn golygu meithrin perthnasoedd newydd yn barhaus, sydd yn golygu buddsoddi mewn amser ac annog syniadau a chreadigrwydd, o ble bynnag y daw hynny.



- Mae angen i ni ehangu dealltwriaeth ar draws y gymuned ynghylch beth fydd ein cynllun llesiant yn ei gyflawni, a chael mwy o bobl i ymuno â ni ar hyd y daith.
- Yn olaf, rydym yn gwybod bod angen i ni ganolbwyntio ar fod yn fwy ataliol yn y ffordd yr ydym yn gwneud pethau fel ein bod yn creu cymunedau cydnerth a chreu adenillon cymdeithasol wrth fuddsoddi. Er mwyn gwneud hynny, mae angen newid meddwl cyffelyb ymysg partneriaid cenedlaethol a strategol.









## Cyflawni ein Cynllun

Erbyn hyn mae'r tri Bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn gyntaf er mwyn dechrau creu momentwm. Rydym ffurfio cysylltiadau gyda'r bobl iawn er mwyn cyflawni'r gwaith ac wedi ehangu ein haelodaeth wrth i ni ddatblygu mwy ar y camau gweithredu. Ar ôl blwyddyn o fodolaeth rydym yn diweddarau beth sydd angen i ni ei wneud fel ein bod yn parhau i gynnwys ein cymunedau a rhanddeiliaid er mwyn cyflawni'r saith nod llesiant, er mwyn creu:

- Wreccsam Iachach
- Wreccsam Gydnherth
- Wreccsam Ffyniannus
- Wreccsam o Gymunedau Cydlynus
- Wreccsam o Ddiwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus
- Wreccsam sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang
- Wreccsam sy'n Fwy Cyfartal







## Cyfranogi

Yn 2016 gweithiodd Senedd yr Ifanc Wrecsam ar ganfod beth sydd yn bwysig i blant a phobl ifanc yn Wrecsam. Bu iddynt ddatblygu ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed o'r enw 'Ein Dyfodol - y Wrecsam a Garem' a chymerodd 340 o bobl ifanc ran yn hynny.

Bu i ganlyniadau'r ymgynghoriad yma amlygu materion yn Wrecsam ynghylch:

- Cwsg
- Rheoli bwyd a phwysau
- Meithrin sgiliau bywyd

Yna bu i'r gwaith hwnnw siapio byrddau'r rhaglenni sydd wedi bod yn mapio llythrennedd ariannol presennol a rhaglenni sgiliau bywyd sydd yn cael eu darparu drwy'r cwricwlwm ABCh. Mae'r PSB wedi dechrau gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru er mwyn cefnogi datblygu cyngor a chymorth drwy raglen Cyfnewidfa Busnes Addysg.

Llynedd, bu i'r Senedd gymryd yr awenau a datblygu ymgynghoriad ychwanegol 'Ein Llesiant', gan weithio gyda lechyd Cyhoeddus Cymru a'r PSB. Y nod oedd hysbysu mwy ar y gwaith sydd o bwys i bobl ifanc sydd yn rhan o Gynllun Llesiant Wrecsam. Yn rhyfeddol, rhannodd 1350 o bobl ifanc 11-18 oed eu safbwyntiau gyda'r Senedd ynghylch pa sgiliau bywyd oedd bwysicaf iddynt.



Ym Mawrth 2019 bu i ni wahodd y Senedd a Sally Holland - Comisiynydd Plant Cymru, a'i thîm i arwain ein cyfarfod PSB. Thema'r cyfarfod yma oedd sut y gallai canllawiau Y Ffordd Iawn a chanfyddiadau ymgynghoriad y Senedd siapio gwaith y PSB.

Ar ôl y gweithdy dywedodd y bobl ifanc:

**'Roedd cael gwahoddiad i chwarae rôl sylweddol mewn datblygu prosiect ar faterion cyfoes iawn y bu i ni eu canfod yn brofiad gwefreiddiol. Rydym yn falch iawn ein bod wedi llwyddo i brofi bod angen gwelliannau mewn perthynas â phobl ifanc, cwsg, defnyddio technoleg, bwyta'n iach a gwybod pa sgiliau annibynnol ddylid eu dysgu. Rydym yn gobeithio gweld camau effeithiol yn cael eu rhoi ar waith yn cynnwys hyrwyddo 'Golau Nos' a gwell gwybodaeth am gysylltiadau rhwng noson dda o gwsg a thechnoleg. Rydym yn gobeithio y bydd dyfodol pobl ifanc yn Wrecsam yn haws drwy ddysgu'r sgiliau bywyd angenrheidiol, fydd yn cynnwys ymwybyddiaeth o fwyta'n iachach.'**

**'RYDYM YN GOBEITHIO  
Y BYDD DYFODOL POBL  
IFANC YN WRECSAM  
YN HAWS DRWY  
DDYSGU'R SGILIAU  
BYWYD ANGENRHEIDIOL,  
FYDD YN CYNWYS  
YMWYBYDDIAETH O  
FWYTA'N IACHACH.'**





**‘Cefais bleser mawr wrth ddatblygu a chynnal ein Ymgynghoriad ‘Ein Llesiant’. Bu i nifer rhyfeddol o bobl ifanc gymryd rhan, ac roedd y canlyniadau yn rhyfeddol. Roedd y canfyddiadau yn ddiddorol iawn. Roedd yn gyfle gwych i allu hyrwyddo’r canfyddiadau yma ymysg pobl broffesiynol o’r PSB a Sally Holland.’**

**‘Bu i weithio gyda’r PSB feithrin fy hyder oherwydd roedd yr ystafell yn llawn pobl broffesiynol fydd yn cefnogi’r gwaith yr ydym wedi ei wneud.’**

**Erbyn hyn mae’r partneriaid unigol wedi ymrwymo i brofi sut y gallent ymgorffori dull hawliau plant ym mhob agwedd o’u gwaith. Bydd y PSB a’r Senedd yn gyfrifol am ddod a nhw at ei gilydd er mwyn canolbwyntio ar gynnydd, rhwystrau a chyfleoedd.**



## Addas i'r dyfodol - yr hirdymor

Mae PSB Wrecsam wedi dechrau creu cysylltiadau gyda'r bartneriaeth sgiliau ranbarthol er mwyn deall pa swyddi fodd yn y fantol yn ystod y deng mlynedd nesaf, a pha sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol. Mae byrddau'r rhaglenni yn ceisio datblygu dealltwriaeth o dueddiadau'r dyfodol, fel y gall Gogledd Cymru barhau i fanteisio ar gyfleoedd twf cynaliadwy yn y dyfodol.

Mae'r partneriaid PSB wedi ymrwymo i hyrwyddo a chymeradwyo adduned Cyflogwyr Wrecsam. Mae'r prosiect arloesol yma yn dod â'r sectorau cyhoeddus a phreifat at ei gilydd gyda chymunedau er mwyn datblygu prentisiaethau, cynyddu argaeledd gwaith rhan amser ac annog cyflogi pobl dros 50 oed.

Mae bwrdd rhaglen dysgu gydol oes yn cefnogi Prifysgol y Drydedd Oes, sydd yn fynnu yn Wrecsam. Bu i adroddiad diweddar [U3A](#) ar arwahanrwydd cymdeithasol arenwi buddion rhyng-genedlaethau posibl y gallai PSB Wrecsam eu cyflawni drwy weithredu'r cynllun llesiant.







Bydd Prosiect Seilwaith Gwyrdd Wrecsam yn gwella gofod gwyrdd yn rhai o wardiau mwyaf difreintiedig Wrecsam. Gan ganolbwyntio'n bennaf ar gymunedau am Mharc Caia a Phlas Madoc, bydd y prosiect yn gwneud cyfres o welliannau amgylcheddol, yn targedu ardaloedd mawr o ofod agored, a hynny yn arwain at nifer o fuddion megis mwy o barch a theimlad o berchnogaeth am yr amgylchedd, iechyd a gwelliannau cymdeithasol, cydlyniant cymunedol a chydnerthedd ecosystemau lleol.

- Plannu coed dwys a strwythurol er mwyn lleihau effeithiau llygredd aer a sŵn o ganlyniad o draffig trwm ar hyd llwybr trafndiaeth allweddol i Wrecsam
- Datblygu rhwydweithiau gwirfoddoli yn Wrecsam er mwyn i'r gymuned ymgysylltu â gofalu am a gwella ansawdd amgylcheddol eu gofod gwyrdd.
- Creu partneriaethau newydd gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a Cadw Cymru'n Daclus.





## Gwneud pethau'n iawn - atal

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi mynd ati i archwilio partneriaethau posibl er mwyn cynnig ffrwythau am ddim i blant mewn lleoliad gofal iechyd cymunedol. Rydym wedi dechrau gweithio gyda chronfeydd elusennol BIP Betsi Cadwaladr (Awyr Las) ac arlwyyo BIPBC er mwyn datblygu cynllun peilot. Os bydd hynny yn llwyddiannus bydd yn tyfu ac yn esblygu fel y gall lleoliadau eraill geisio cynnig darpariaeth gyffelyb i blant/teuluoedd. Mae Coleg Cambria wedi gosod tair ffynnon ddŵr ar eu campysau yn Wrecsam ac wedi datblygu menter Diwrnod Ffrwythau Am Ddim. Byddwn yn darparu ffynhonnau hygrych mewn lleoliadau cyhoeddus eraill yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, yn ddibynnol ar arian. Bu i ni alluogi Refill i ymweld â busnesau yng nghanol y dref er mwyn eu hannog i fod yn rhan o'u cynllun i ddarparu dŵr am ddim er mwyn ail-lenwi poteli y gellir eu hailddefnyddio.

Yn Nwyrain Gogledd Cymru mae tua 29% o ferched beichiog yn ordew. Er mwyn ategu hyfforddiant ac adnoddau bydwreigiaeth cymunedol presennol, sydd yn cefnogi bwyta'n dda, bod yn actif ac ennill pwysau'n iach yn ystod beichiogrwydd, rydym wedi ymgysylltu â chlystyrau o feddygon teulu lleol er mwyn cynllunio sut yr ydym yn rhannu adnoddau a chymorth drwy ein timau gofal sylfaenol.

Mae Dewch i Goginio wedi parhau i gael ei ddarparu ar draws y Sir gan Dietetics, y Tîm Gwella Iechyd yn BCUHB a Dechrau'n Deg. Rydym yn awyddus i archwilio sut y gallwn gefnogi teuluoedd ac unigolion sydd yn symud ymlaen o'r angen i gael mynediad at roddion bwyd, megis drwy gronfeydd bwyd a meithrin partneriaethau cynaliadwy, yn cynnwys y rhai sydd yn gweithio gyda'r digartref.







Mae Partneriaeth Dysgu Cymunedol Oedolion wedi datblygu trosolwg trwyadl iawn o'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws Wrecsam, gan greu cysylltiadau â'r rhan fwyaf o'r darparwyr, ac mae wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddarparu Sgiliau Hanfodol. Mae rhaglen ACL 19/20 wedi cael ei cynhyrchu ar y cyd gyda dysgwyr, ac rydym yn archwilio opsiynau gyda DEWIS er mwyn i bobl ymgysylltu â chyfleoedd addysg, gwirfoddoli a chyfleoedd eraill.

Mis Mehefin diwethaf dechreuodd cynllun rhedeg parc Dyfroedd Alyn, sydd yn ddigwyddiad 2km am ddim wedi ei amseru ar gyfer plant 4-14 oed sydd yn cael ei gynnal bob dydd Sul. Bu i grant Gyda'n Gilydd yn Wrecsam gefnogi'r costau sefydlu. Mae'r digwyddiad yn cael ei drefnu a'i arwain gan wirfoddolwyr, a hyd yma mae 175 o wahanol wirfoddolwyr wedi helpu yn y digwyddiadau yr ydym wedi eu trefnu. Erbyn hyn mae'r cynllun rhedeg parc i blant yn denu tua 40 o redwyr ar gyfartaledd a 20 o wirfoddolwyr yr wythnos. Mae'r digwyddiad yn gynhwysol iawn ac nid oes dim pwysau i redeg neu i gystadlu yn y digwyddiad mewn amser penodol. Mae'r pwyslais ar annog yr holl bobl ifanc i gwblhau'r digwyddiad mewn ffordd hwyliog.

Mae dros 8,000 o bobl wedi cymryd rhan mewn prosiectau Chwarae eleni. Roedd hynny yn cynnwys holiadur bodlonrwydd chwarae cynhwysfawr a gwblhawyd gan dros 1200 o blant blwyddyn 5, 500+ o rieni, pobl broffesiynol a phlant oedd yn ymwneud ag Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2019, dros 2500 o blant unigol sydd wedi mynychu cynlluniau chwarae a ariannwyd gan gynghorau cymuned, a dros 4,000 o bobl aeth i Ddiwrnod Chwarae 2018.



## Gwneud pethau'n well - integreiddio.

Mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol wedi cynnal adolygiad cyflym o lenyddiaeth gan edrych ar gwsg ac agweddau tuag at bwysau a bwyd, ac yna wedi defnyddio'r wybodaeth honno i ategu ffurfio cwestiynau a'r ymgynghoriad sydd wedi cael ei ddylunio gan y bobl ifanc. Mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol yn edrych ar ganfyddiadau'r adroddiad yma, yn eu cymharu â ffynonellau data a thystiolaeth eraill, ac yna bydd yn rhoi rhai argymhellion i'r Bwrdd Dechrau'n Deg eu hystyried.

**Mae ein Adduned Chwarae newydd ar gyfer Wreccsam yn ymrwmo cymorth lefel uchel ar draws Cyngor Wreccsam ar gyfer gwarchod a gwella chwarae plant yn ogystal â chytuno i ffurfio partneriaeth chwarae proffesiynol er mwyn gwireddu hynny. Rydym wedi creu cysylltiadau cryf gyda Chlwb Pêl-droed Wreccsam er mwyn hyrwyddo iechyd a llesiant drwy broses o ryngweithio rhwng y clwb a phobl ifanc a theuluoedd.**

Rydym hefyd wedi creu cysylltiadau newydd â Phrifysgol Glyndŵr er mwyn adeiladu ar hynny wrth i ni symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Amcanu hynny yw cysylltu'r myfyrwyr sydd ar raglen Iechyd Cyhoeddus y Brifysgol gyda materion sydd angen rhyw fath o ymchwil, tystiolaeth neu ddata.







## Cydweithio

Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi arwain prosiect rhanbarthol er mwyn canfod sut ydym yn cynyddu swm y gweithgareddau cymunedol a gwirfoddol a rhannu syniadau da ar draws y rhanbarth. Petawn yn mapio hynny gallwn fanteisio ar y cyfle i staff sydd yn gweithio ar draws y sector cyhoeddus gymryd rhan yn ffurfiol yn eu cymunedau. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Datris, cwmni technoleg o Gymru er mwyn canfod swm y cyfranogiad cymunedol ar draws Wrecsam, fel bod y PSB yn gallu cefnogi mentrau llawr gwlad. Erbyn hyn rydym wedi canfod dros 1800 o glybiau, grwpiau a chymdeithasau ar draws y fwrdeistref Sirol, sydd yn dangos bod bywiogrwydd cymunedol yn ffynnu, ond y gallent elwa o gymorth. Drwy fapio'r grwpiau yma ar DEWIS gallwn ddechrau cynyddu cyfleoedd i bobl gyfranogi ym mhle maent yn byw, gan gynyddu eu cydnerthedd a'u llesiant.

Mae'r gwaith hwn wedi dangos ein bod yn aml yn tanamcanu faint o waith cymunedol sydd yn cael ei wneud pan nad yw pobl yn ystyried eu hunain fel gwirfoddolwyr yn yr ystyr draddodiadol, o hyfforddwyr y tîm pêl-droed dan 11 lleol, neu drefnu digwyddiad blynyddol Ymweld â fy Mosg a ddigwyddodd yn llwyddiannus yn Wrecsam ym Mawrth 2019.

Roedd yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn llwyddiannus yn eu cais am Gyllid Trawsnewidiol o fewn Cymru Iachach. Mae yna bedwar prosiect fydd o fudd i bobl sydd yn byw yn Wrecsam - Anawsterau Dysgu, Iechyd Meddwl, Datblygiad Plant a Thrawsnewid Cymunedau. Mae'r tri cyntaf yn cael eu rhoi ar waith yn bennaf ar draws Gogledd Cymru, gyda pheth amrywiad yn lleol.





Mae rhaglen Trawsnewid Cymunedau wedi bod yn ffocws gwaith cynnar bwrdd rhaglen EAST. Mae'r rhaglen yn cynnwys dull newydd cyffrous o gydlynu asiantaethau lleol er mwyn darparu cymorth â ffocws i drigolion sydd yn wynebu'r risg mwyaf o ddioddef argyfwng iechyd. Mae hyn wedi cael ei ddatblygu gyda mewnbwn awdurdodau lleol, y trydydd sector, meddygon teulu a'r Bwrdd Iechyd. Y cam nesaf fydd sicrhau y gellir gwireddu'r buddion i drigolion Wrecsam.

Mae'r partneriaid lleol BCUHB, Home Start a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cydweithio er mwyn sicrhau arian gan y Loteri Genedlaethol er mwyn datblygu Cynllun Camp yn y Castell sydd wedi galluogi i nifer o deuluoedd gael mynediad at wyliau ar benwythnos yn lleoliad hyfryd Castell y Waun, a hynny yn seiliedig ar chwarae yn yr awyr agored.

Crëwyd map Seilwaith Gwyrdd Gogledd-ddwyrain Cymru gan Cofnod (Canolfan Cofnodion Ecolegol Gogledd Cymru) ac mae'n nodi Seilwaith Gwyrdd presennol yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Mae Cofnod wedi datblygu arddangosiad cyfranogol a ddefnyddir i addysgu'r cyhoedd a dechrau trafodaeth am ble yr ydym yn byw.

Sefydlwyd Rhwydwaith Llesiant Plant a Phobl Ifanc gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam mewn cydweithrediad â sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn ehangach. Amcanion y rhwydwaith yw rhannu newyddion a gwybodaeth, trafod materion o ddiddordeb cyffredin, canfod cyfleoedd i gydweithio a dysgu o brofiadau a gwybodaeth ei gilydd. Hefyd bydd y rhwydwaith yn cael ei ddefnyddio fel sanel gyfathrebu ar gyfer cynrychiolwyr mewn partneriaethau strategol a gellir defnyddio hynny fel pwynt ymgynghori â'r trydydd sector.





## Ein huchelgais trawsffiniol

Mae yna bedair thema drawsffiniol sydd yn tynnu ein cynllun llesiant at ei gilydd. Mae'r materion hirdymor yma angen ffordd newydd o wneud pethau, ac ymateb cymuned a phartneriaeth cyfan, a gallwn greu hynny ar y cyd wrth i ni adeiladu cymunedau cydnerth.


- **Newid yn yr Hinsawdd - mae PSB Wrecsam yn arwain rhaglen er mwyn datblygu fframwaith newid yn yr hinsawdd ranbarthol. Gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, bydd y fframwaith yma yn ffordd o ddod â'r pedwar PSB ar draws Gogledd Cymru at ei gilydd, ac o alluogi sefydliadau, rhanddeiliaid a chymunedau i gydweithio i ddatblygu ymateb cadarn i'r heriau mwyaf critigol yr ydym yn eu hwynebu.**
- Rydym wedi cytuno i weithio â Senedd yr Ifanc ar y fframwaith newid yn yr hinsawdd, fel mai plant a phobl ifanc yw'r rhai sydd yn siapio eu dyfodol a bod ganddynt wir lais a phenderfyniad ynglŷn â'u bywydau fydd yn effeithio arnynt.



- Tlodi - Mae'r PSB mewn lle da i arenwi ac amlygu materion tlodi lleol a datblygu dull integredig ac uchelgeisiol o wella llesiant. Rydym eisiau trafodaeth onest ar draws y gymuned am beth mae hynny yn ei olygu a beth fydd y rhwystrau mewn perthynas â llesiant o ganlyniad i incwm ac iechyd. Gallai gymryd cenhedlaeth i ni newid hyn, ond byddwn yn datblygu ffyrdd er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod y gorau y gallent fod.
- Cydlyniant Cymunedol Mae Wrecsam yn lle bywiog a goddefgar ble mae gwahanol gymunedau yn ceisio cyf-fyw a ble mae ffrindiau newydd yn cael eu croesawu i gyfranogi. Mae gennym bartneriaeth diogelwch cymunedol sefydledig a chryf a hanes effeithiol o asiantaethau cymorth, partneriaid PSB a cymunedau yn cydweithio. Rydym yn datblygu canolbwyntiau gofal cymunedol amlasiantaeth ar draws Wrecsam fydd yn gyfrifol am gyfeirio a rhagnodi cymdeithasol er mwyn gwella llesiant.
- Yr Iaith Gymraeg. Mae bwrdd y rhaglen Ddysgu wedi bod yn canfod cyfleoedd i ddatblygu'r iaith Gymraeg ar draws y sector cyhoeddus yn Wrecsam. Gan adeiladu ar y dechrau rhagorol y mae ysgolion yn ei wneud, mae Coleg Cambria yn arwain o ran sicrhau bod aelodau PSB yn manteisio ar hyfforddiant yn y gweithle, o gyrsiau ar-lein i hyfforddiant Cymraeg dwys yn y gweithle.







## Felly, beth nesaf?

Gobeithio bod yr adroddiad yma yn rhoi blas o'r hyn mae partneriaid PSB Wrecsam, ein cymunedau a'n rhanddeiliaid wedi dechrau ei wneud, a sut yr ydym yn dechrau cyfrannu at y darlun mawr yn rhanbarthol, cenedlaethol ac yn fyd-eang. Rydym yn teimlo bod yna daith hir o'n blaenau, ond rydym wedi cychwyn arni a gallwn weld y copa, felly rydym yn gwybod i ble mae angen i ni fynd.

Mae gennym grŵp o unigolion ymroddedig sydd yn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni pethau. Mae gwneud hyn yn iawn gyda phobl Wrecsam yn bwysig i ni, fel y gallwn greu dyfodol i'r lle yma y gall pob un ohonom fod yn falch ohono.

Os hoffech gyfrannu a'n helpu ni i helpu'n gilydd, e-bostiwch: [sustainability@wrexham.gov.uk](mailto:sustainability@wrexham.gov.uk)

Mehefin 2019



